

Adran Gwaith a Phensiynau

# Taflen Ffeithiau Hawlydd Budd-dal Tai

## Beth fydd yn digwydd i Fudd-dal Tai pan fyddwch yn ennill mwy

Ers mis Ebrill 2013 mae rheolau Budd-dal Tai newydd ar gyfer pobl o oedran gweithio sy'n byw mewn tai cymdeithasol. O dan y rheolau newydd byddwch yn cael Budd-dal Tai yn seiliedig ar y nifer o bobl sydd yn eich cartref a maint eich llety. Gall hyn olygu fod eich Budd-dal Tai yn cael ei leihau, a bydd yn rhaid i chi gwrdd â'r diffyg eich hun.

I rai pobl, gall ddod o hyd i swydd neu gynyddu eich oriau fod yn opsiwn ymarferol.

**Ennill mwy**

Efallai na fydd cymryd swydd llawn amser yn opsiwn i bawb. Os ydych yn ymgymryd â gwaith rhan-amser, bydd rhai o'ch enillion yn cael ei anwybyddu pan fydd eich Budd-dal Tai yn cael ei gyfrifo. Gelwir y swm y gallwch ei gadw weithiau yn 'anwybyddiad'.

Mae'r swm y gallwch ei gadw yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Ym mhob pecyn cyflog wythnosol, byddwn yn anwybyddu:

- £5 os ydych yn berson sengl
- £10 os ydych yn gwpl
- £20 os ydych yn berson anabl a phobl sy'n cael premiwm gofalwr
- £25 ar gyfer rhieni unigol.

Mae'r llywodraeth yn anwybyddu'r arian hwn i'ch annog i aros mewn gwaith. Bydd aros mewn gwaith rhan-amser yn ei gwneud yn haws i chi gynyddu eich oriau neu ymgymryd â gwaith llawn amser yn ddiweddarach.

**Help arall pan fyddwch yn ennill mwy**

O dan y system dreth a budd-daliadau presennol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn gweld cynnydd mwy sylweddol yn eu hincwm cyffredinol pan fyddant yn gweithio am 16 awr neu fwy bob wythnos.

Gall Budd-dal Tai fod ar gael pan fyddwch yn gweithio llawn amser. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod eich gwir gyflog, ar ôl i chi dalu eich rhent, yn fwy nag y byddech yn ei gael o fudd-daliadau allan o waith.

Mae'r ffordd y mae enillion neu enillion ychwanegol yn effeithio ar fudd-daliadau mewn gwaith ac allan o waith yn dibynnu ar eich amgylchiadau a faint o oriau rydych yn eu gweithio. Gall hefyd fod yn gymhleth wrth geisio gweld sut mae budd-daliadau a chredydau treth yn rhyngweithio.

Os oes gennych swydd mewn golwg neu os hoffech weithio allan sut y gallech fod yn well eich byd mewn gwaith, defnyddiwch offeryn y Cynghorydd Budd-daliadau yn **www.gov.uk/benefits-adviser**

Gallwch gael mynediad i filoedd o swyddi gwag drwy ddefnyddio Paru Swyddi Ar-lein yn **www.gov.uk/chwilio-am-swydd**

Mae cymhellion ariannol i'ch helpu yn ôl i mewn i waith, gan gynnwys:

Mae **Credyd Treth Gwaith** ar gael os ydych yn gweithio ond rydych ar incwm isel. Ewch i **www.gov.uk/working-tax-credit** i gael mwy o wybodaeth.

Mae **Credyd Treth Plant** ar gael os ydych yn gyfrifol am o leiaf un plentyn neu berson ifanc. Ewch i **www.gov.uk/child-tax-credit** i gael mwy o wybodaeth.

Bydd y **Taliad Estynedig Budd-dal Tai** yn helpu i dalu eich rhent pan fyddwch yn cynyddu eich oriau neu enillion. Gallech gael 4 wythnos ychwanegol o Fudd-dal Tai. Os ydych yn gymwys, bydd eich cyngor lleol yn cysylltu â chi. Ewch i **www.gov.uk/housing-benefit/further-information** i gael mwy o wybodaeth.

Mae **Gostyngiadau Treth Cyngor** ar gael yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'r rheolau yng nghynllun eich cyngor. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i wneud cais. Ewch i **www.gov.uk/council-tax-reduction i gael mwy o wybodaeth.**

Gall **Dilyniant o Log Morgais** helpu gyda chostau tai ac mae'n cael ei dalu am hyd at bedair wythnos ar ôl i bobl symud o Gymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith i mewn i waith. Ewch i **www.gov.uk/mortgage-interest-run-on** neu siaradwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.